WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Arolygiad Arbennig

# Cyngor Sir Penfro

**Blwyddyn archwilio:** 2011-12

**Cyhoeddwyd:** Ionawr 2012

**Cyfeirnod y ddogfen:** 125A2011

# Statws yr adroddiad

Cafodd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, gymorth Huw Rees, David Rees, Louise Fleet, Ena Lloyd, Susan Morgan, Gwilym Bury a'r Cynghorydd Ray Morgon o dan arweiniad Alan Morris i gynnal yr arolygiad a llunio'r adroddiad hwn.

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Penfro fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw Gynghorydd, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Adroddiad cryno** | 4 |
| Y ffordd ymlaen | 6 |
| Datganiad gan yr Archwilydd Cyffredinol | 7 |
| Argymhellion | 7 |
| **Adroddiad manwl** | |
| Mae gan y Cyngor gefndir o reolaeth sefydlog, stiwardiaeth ariannol dda a dull cyson a chynyddol o sicrhau gwelliant | 9 |
| Mae diwylliant o barch ac ymddiriedaeth yn bodoli rhwng y rhan fwyaf o'r Cynghorwyr a swyddogion, sy'n arwain at gydberthnasau gwaith cynhyrchiol | 10 |
| Nid oes digon o eglurder na dealltwriaeth ynghylch rhai rolau a chyfrifoldebau, a cheir rhywfaint o ddiffyg tryloywder hefyd, sy'n golygu nad yw her effeithiol yn nodwedd gyson ar drefniadau llywodraethu | 11 |
|     Nid oes digon o eglurder na dealltwriaeth ynghylch rhai rolau a chyfrifoldebau | 11 |
|     Ceir rhywfaint o ddiffyg tryloywder gan na chaiff gwybodaeth ei rhannu fel mater o drefn bob amser | 13 |
|     Nid yw her effeithiol yn nodwedd gyson ar drefniadau llywodraethu | 14 |
| Mewn rhai achosion, mae gorddibyniaeth ar ddulliau rheoli anffurfiol wedi gwanhau atebolrwydd ac wedi arwain at rywfaint o laesu dwylo ac amlygiad i risg. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi dechrau mynd i'r afael â'r problemau hyn bellach | 18 |
| **Atodiadau** | |
| Methodoleg | 22 |

# Adroddiad cryno

1. Ym mis Medi 2011, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei fwriad i gynnal arolygiad arbennig o drefniadau llywodraethu corfforaethol Cyngor Sir Penfro (y Cyngor).
2. Penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol gynnal yr arolygiad arbennig ar ôl i ddau adroddiad beirniadol gael eu cyhoeddi gan arolygwyr ar 11 Awst 2011, yn awgrymu bod methiannau yn nhrefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor. Cyhoeddodd Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, Estyn, adroddiad ar ei harolygiad o Wasanaethau Addysg Awdurdodau Lleol i Blant a Phobl Ifanc yn Sir Benfro[1]. Yn ogystal, cyhoeddodd Estyn ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) adroddiad ar yr ymchwiliad a gynhaliwyd ar y cyd ganddynt i'r ffordd y cafodd honiadau o gam-drin proffesiynol eu trin a'u rheoli, a'r trefniadau i ddiogelu ac amddiffyn plant o fewn y gwasanaethau addysg[2].
3. Er bod y ddau adroddiad yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â phlant a phobl ifanc, daeth adroddiad Estyn ar wasanaethau addysg i'r casgliad y **'bu methiant corfforaethol systemig i ymateb yn ddigonol i faterion diogelu'**. Beirniadodd adroddiad yr ymchwiliad ar y cyd gan AGGCC ac Estyn y trefniadau llywodraethu corfforaethol hefyd, gan ddatgan,**'mae'r ffaith nad oes system lywodraethu effeithiol ar waith mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn plant yn adlewyrchu'r methiannau penodol a geir o fewn diwylliant yr awdurdod yn gyfan gwbl. Mae'r diffygion a welir o ran trefniadau'r awdurdod i ddiogelu ac amddiffyn plant yn hirsefydledig ac yn systematig. Mae hyn yn arwydd o natur sylfaenol y problemau hyn a methiannau o fewn yr awdurdod.'**
4. Ar 19 Awst 2011, ar ôl ystyried canfyddiadau'r ddau adroddiad, ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau gan gynnig y dylid cynnal Arolygiad Arbennig o dan Adran 21 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.
5. Yng ngoleuni casgliadau'r adroddiad ar wasanaethau addysg ac adroddiad yr ymchwiliad ar y cyd, nod arolygiad arbennig yr Archwilydd Cyffredinol oedd ymchwilio i ba un a yw'r gwendidau a nodwyd yn y ddau adroddiad yn fwy eang; ac yn benodol a yw'r gwendidau o ran atebolrwydd democrataidd a llywodraethu yn systemig (gweler Atodiad 1 i gael manylion am y fethodoleg).
6. Er bod gan y Cyngor rai nodweddion cadarnhaol iawn mewn perthynas â'i ddiwylliant a'i amgylchedd gweithredu, canfuwyd bod angen gwneud gwelliannau i sicrhau y gall y Cyngor gadw trosolwg digonol o safbwynt gwleidyddol ac o safbwynt rheoli a dwyn pobl i gyfrif yn briodol. Mae angen ffurfioli a chryfhau rhai trefniadau yn hytrach na newid modelau llywodraethu a rheoli yn gyfan gwbl.
7. Ein casgliad cyffredinol yw bod gan **y Cyngor ddiwylliant cadarnhaol o ymddiriedaeth a pharch sydd wedi bod yn fuddiol; fodd bynnag, mae'r ffaith nad oes digon o ffurfioldeb na her effeithiol a chyson wedi gwanhau atebolrwydd, gan olygu bod y Cyngor yn agored i risg ddiangen.**

---

[1] http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/darparwr/668LAESCYP/

[2] http://wales.gov.uk/docs/cssiw/report/110810pembcy.pdf

8. Daethom i’r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- **Mae gan y Cyngor gefndir o reolaeth sefydlog, stiwardiaeth ariannol dda a dull cyson a chynyddol o sicrhau gwelliant.**

  Yn hanesyddol mae gwasanaethau’r Cyngor wedi bod yn gadarn ar y cyfan, gyda materion ariannol wedi’u rheoli’n dda a thystiolaeth bod gwelliannau cyson a chynyddol yn cael eu gwneud i wasanaethau. Ar wahân i'r problemau difrifol â gwasanaethau y tynnwyd sylw atynt yn adroddiadau Estyn ac AGGCC, nid oedd y Cyngor erioed wedi gorfod gwneud newid sylfaenol, sylweddol i'w berfformiad. Roedd y Cyngor hefyd wedi mwynhau cyfnod cymharol hir o arweinyddiaeth sefydlog, a hynny o safbwynt gwleidyddol ac o safbwynt rheoli.

  Dros amser, mae ethos tîm cryf wedi datblygu, gyda'r rhan fwyaf o Gynghorwyr a swyddogion yn mynegi awydd i weithio'n dda gyda'i gilydd er mwyn sicrhau bod pobl Sir Benfro a'r sir yn ei chyfanrwydd yn cael y gorau. Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn wedi creu ymdeimlad o sefydlogrwydd yn y Cyngor a lefelau uchel o hyder yn y trefniadau llywodraethu a rheoli presennol.

- **Mae diwylliant o barch ac ymddiriedaeth yn bodoli rhwng y rhan fwyaf o'r Cynghorwyr a swyddogion, sy'n arwain at gydberthnasau gwaith cynhyrchiol.**

  Mae diwylliant o ymddiriedaeth a pharch i'w weld yn y Cyngor lle mae cyswllt wyneb yn wyneb a meithrin cydberthnasau adeiladol yn nodweddion allweddol o'r ffordd y mae'r Cyngor yn gwneud busnes. Mae swyddogion yn teimlo eu bod wedi'u grymuso a cheir cydberthnasau gwaith da rhwng Cynghorwyr a Swyddogion, sy'n seiliedig ar drefniadau mynediad hwylus a lefelau uchel o ymgysylltu anffurfiol. Serch hynny, ar adegau ni chaiff gwybodaeth ei rhannu mor eang ag y gallai, gan beri i rai Cynghorwyr deimlo eu bod wedi’u heithrio. Mae angen i’r Cyngor gymryd camau mwy rhagweithiol i hyrwyddo gwaith ymgysylltu a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu â phob Cynghorydd.

- Fodd bynnag, canfuwyd hefyd **nad oes digon o eglurder na dealltwriaeth ynghylch rhai rolau a chyfrifoldebau, a bod rhywfaint o ddiffyg tryloywder hefyd, sy'n golygu nad yw her effeithiol yn nodwedd gyson ar drefniadau llywodraethu.**

  Mae rhai Cynghorwyr yn cael anhawster deall eu rolau a'u cyfrifoldeb corfforaethol. Mae rhai yn canolbwyntio gormod ar faterion gweithredol yn hytrach na rhai mwy strategol ac nid oes ganddynt ddealltwriaeth dda o'r rôl sydd ganddynt i'w chwarae i geisio sicrwydd a chraffu mewn modd strategol ac ystyrlon ar benderfyniadau'r Cyngor.

  Canfuwyd hefyd bod diffyg eglurder ynghylch y modd y gwneir penderfyniadau yn y Cyngor. Er bod trefniadau wedi'u nodi'n glir yng Nghyfansoddiad y Cyngor, ni cheir dealltwriaeth gyffredinol o rolau'r fforymau amrywiol (gan gynnwys y Cabinet, y Pwyllgorau Craffu, y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, a'r Tîm Rheoli Corfforaethol) ac mae hyn wedi arwain at rai amheuon di-sail nad yw penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn ffordd briodol. Un peth sy'n ychwanegu at y diffyg eglurder hwn yw'r ffaith nad oes llwybr wedi'i ddogfennu ar gyfer

gwneud penderfyniadau, a fyddai'n galluogi'r rhai â diddordeb dilys mewn mater penodol i'w ddilyn drwy'r camau llunio, datblygu, cynnig, cymeradwyo a gweithredu.

Mae'r diffyg tryloywder hwn o ran prosesau gwneud penderfyniadau a'r aneglurder o ran rolau a chyfrifoldebau yn gwanhau'n sylweddol allu'r Cyngor i herio penderfyniadau a chraffu arnynt, a'r canlyniad posibl yw nad yw'r hyn sy'n deillio ohonynt wedi cael ei ddatblygu mor gadarn ag y gallai. Yr un fu'r sefyllfa ers cryn amser a'r canlyniad yw nad yw prosesau herio na chraffu yn cael eu gwerthfawrogi'n ddigonol fel adnoddau llywodraethu effeithiol a dilys.

- Er y credwn fod y diwylliant anffurfiol ac ymddiriedus yn cyfrannu mewn modd cadarnhaol at gydberthnasau gwaith ac effeithiolrwydd ar y cyfan, canfuwyd bod **gorddibyniaeth ar ddulliau rheoli anffurfiol wedi gwanhau atebolrwydd ac wedi arwain at laesu dwylo ac amlygiad i risg mewn rhai achosion. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi dechrau mynd i'r afael â'r problemau hyn bellach.**

  Mae gorddibyniaeth ar ddulliau anffurfiol yn golygu nad oes digon o sylw yn cael ei roi i ddogfennu rhai trafodaethau, camau gweithredu, penderfyniadau neu ganlyniadau yn briodol. Mae cadw cofnodion ysgrifenedig priodol yn ffordd effeithiol o roi sicrwydd bod ymddiriedaeth yn haeddiannol a bod polisïau a chyfarwyddiadau yn cael eu dilyn fel y bwriadwyd. Mae hwn yn gryn wendid yn nhrefniadau rheoli'r Cyngor sy'n golygu ei bod yn llawer anos dwyn pobl i gyfrif ac yn darparu trosolwg annigonol, gan adael y Cyngor yn agored i risg.

  Gwelwn mai un o ganlyniadau anfwriadol diwylliant ymddiriedus ac anffurfiol y Cyngor yw bod atebolrwydd wedi gwanhau, ac nad oes sail dda i hyder y Cyngor yn ei drefniadau llywodraethu a rheoli a'i fod yn dangos agwedd o 'laesu dwylo'. Mae'n amlwg i ni fod y cydbwysedd rhwng anffurfioldeb ac ymddiriedaeth ar y naill law, a systemau sicrwydd effeithiol ar y llaw arall, wedi gogwyddo'n ormodol o blaid anffurfioldeb ac ymddiriedaeth.

# Y ffordd ymlaen

**9.** Canfuwyd bod y Cyngor eisoes yn gwneud gwelliannau i'w drefniadau llywodraethu a rheoli a fydd yn cryfhau systemau rhannu gwybodaeth ac atebolrwydd. Bellach, caiff cofnodion cyfarfodydd y Tîm Rheoli Corfforaethol eu rhoi i'r sawl sy'n bresennol a Phenaethiaid Gwasanaethau fel mater o drefn; gall Cynghorwyr gael adroddiadau amser real ar berfformiad erbyn hyn; a dylai diwygiadau i'r Cyfansoddiad olygu bod polisïau a phenderfyniadau'n cael eu herio i raddau mwy a'u bod yn destun mwy o waith craffu.

10. Wrth ymateb i'n canfyddiadau, rhaid i'r Cyngor adfer cydbwysedd yn ei ddiwylliant a'i drefniadau. Wrth wneud hynny rhaid i'r Cyngor sicrhau bod Cynghorwyr a staff yn ymwybodol o werth y lefel uwch hon o ffurfioldeb, yn unigol ac ar y cyd, a bod pawb yn cyfrannu at unrhyw newidiadau ac yn eu mabwysiadu. Yn bwysig, rhaid i'r Cyngor sicrhau, wrth roi trefniadau llywodraethu cadarnach ar waith, nad yw'n cael effaith andwyol ar nodweddion cadarnhaol iawn ei bobl a'r diwylliant y tynnwyd sylw atynt yn yr adroddiad hwn.

## Datganiad gan yr Archwilydd Cyffredinol

11. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canlyniadau fy arolygiad arbennig o'r Cyngor o dan adran 21 o'r Mesur. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i mi grybwyll unrhyw fater y credaf, o ganlyniad i'r arolygiad, sy'n golygu nad yw'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Rhan 1 y Mesur (gwella llywodraeth leol). Er bod yr adroddiad hwn yn nodi meysydd i'w gwella, nid wyf wedi dod i'r casgliad bod y materion hyn yn golygu nad yw'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Rhan 1 y Mesur.

## Argymhellion

12. I helpu'r Cyngor i wneud y gwelliannau gofynnol, rydym wedi nodi rhai argymhellion yn y tabl isod. O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiad ar unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd o ganlyniad i'r adroddiad hwn, a'i amserlen arfaethedig ar gyfer cymryd y camau hynny. Rhaid paratoi hwn o fewn 30 diwrnod i gael yr adroddiad hwn.

13. Argymhellwn fod y Cyngor yn gwneud y canlynol:

| | |
|---|---|
| A1 | Egluro, ar fformat hawdd ei ddeall, rolau llywodraethu a gwneud penderfyniadau, yn benodol rhai'r cyrff canlynol:<br>• Y Cabinet;<br>• Pwyllgorau Craffu;<br>• Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol / Archwilio;<br>• Y Tîm Rheoli Corfforaethol. |
| A2 | Sicrhau y caiff dogfennau priodol eu cadw o gyfarfodydd, cynigion ac achosion a phenderfyniadau busnes, a'u bod ar gael yn hawdd, er mwyn rhoi sicrwydd bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn ffordd briodol a thryloyw. |
| A3 | Cymryd camau i sicrhau bod Cynghorwyr yn gwybod beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt a'u bod yn cael cymorth effeithiol ym mhob rôl; gan gynnwys drwy:<br>• baratoi disgrifiadau o rolau;<br>• darparu hyfforddiant sy'n benodol i rolau;<br>• gwerthuso effeithiolrwydd Cynghorwyr yn eu rolau;<br>• ystyried sut y gellir cefnogi gwaith craffu yn well. |

| | |
|---|---|
| A4 | Pennu'n glir, mewn polisi neu brotocol, pa wybodaeth y gall Cynghorwyr ddisgwyl ei chael, pa mor aml a'r dulliau cyfathrebu. |
| A5 | Sicrhau bod rhaglenni craffu yn cyd-fynd â busnes strategol y Cyngor; gan gynnwys:<br>• craffu'n amlach ar gyllidebau a pherfformiad;<br>• craffu ar bolisi ac arferion corfforaethol;<br>• trosolwg o risgiau a chraffu arnynt;<br>• trosolwg o bolisïau ac arferion ym maes cydraddoldebau ac amrywiaeth a chraffu arnynt;<br>• sicrhau y caiff blaenraglen waith y Cabinet ei rhannu â chadeiryddion y pwyllgorau craffu mewn modd amserol. |
| A6 | Parhau i ddiwygio'r Cyfansoddiad er mwyn bod yn fwy agored a thryloyw ac annog her effeithiol. |
| A7 | Rhoi trefniadau sicrhau ansawdd ar waith er mwyn gwneud yn siŵr bod dulliau rheoli a goruchwylio yn effeithiol. |

# Adroddiad manwl

## Mae gan y Cyngor gefndir o reolaeth sefydlog, stiwardiaeth ariannol dda a dull cyson a chynyddol o sicrhau gwelliant

**14.** Mae'r Cyngor wedi cael ei arwain gan yr un grŵp gwleidyddol ers i lywodraeth leol gael ei had-drefnu yn 1996, drwy gyfnod estynedig o sefydlogrwydd gwleidyddol cymharol. Mae'r Prif Weithredwr hefyd wedi bod yn ei swydd ers hynny, ac mae aelodaeth y Tîm Rheoli Corfforaethol wedi bod yn gymharol sefydlog ers nifer o flynyddoedd. Mae'r cyfnod hwn o sefydlogrwydd wedi golygu bod consensws cyffredinol a gweledigaeth gytûn ar gyfer gwasanaethau wedi gallu datblygu ymhlith Cynghorwyr a swyddogion y Cyngor ynghyd ag ymdeimlad cryf iawn o dîm sy'n gweithio er budd Sir Benfro. Canfuwyd bod dealltwriaeth dda o egwyddorion Sylw i Gwsmeriaid, Gwerth am Arian ac Un Tîm a'u bod yn cael eu rhoi ar waith yn dda ym mhob rhan o'r Cyngor.

**15.** Yn hanesyddol mae gwasanaethau'r Cyngor wedi bod yn gadarn ar y cyfan heb lawer o ddiffygion difrifol. Er y bu tuedd i berfformiad addysg waethygu o gymharu â meincnodau Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad yn seiliedig ar hawl i brydau ysgol am ddim, mae canlyniadau yn 2011 wedi dangos rhywfaint o welliant. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod y problemau o ran diogelu plant y tynnwyd sylw atynt yn adroddiadau'r Ombwdsmon[3] ac adroddiadau'r arolygwyr yn ystod haf 2011, wedi effeithio'n andwyol ar ganlyniadau'r Cyngor.

**16.** Mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddo ac mae wedi rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod y dreth gyngor yn parhau i fod yn isel o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru. Y dreth gyngor ar gyfer eiddo ym mand D yn Sir Benfro fu'r isaf yng Nghymru ers nifer o flynyddoedd. Nododd llythyr Diweddaru Asesiad Corfforaethol 2011 a anfonodd yr Archwilydd Cyffredinol i'r Cyngor, fod y Cyngor mewn sefyllfa dda i ateb yr heriau ariannol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus, a bod y Cyngor wedi dod i'r casgliad y gall barhau i ddarparu'r lefelau gwasanaeth presennol o fewn y setliadau ariannol a ragwelir. Fodd bynnag, ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi lleihau'r arian sydd ar gael i foderneiddio ysgolion, ac felly bydd angen i'r Cyngor ddod o hyd i £30 miliwn ychwanegol, a fydd yn golygu y bydd rhaid iddo wneud rhai penderfyniadau anodd ynghylch pa un a yw'r lefelau gwasanaeth presennol yn fforddiadwy.

**17.** Ers ei sefydlu, mae'r Cyngor wedi defnyddio dull cyson a chynyddol o sicrhau gwelliant gan nad oes unrhyw angen amlwg wedi bod am newid sylfaenol. Nawr, fodd bynnag, o gofio canfyddiadau diweddar adroddiadau Estyn ac AGGCC, a'r angen i ailystyried y sefyllfa ariannol gyda thoriadau posibl i wasanaethau, mae'r Cyngor yn wynebu heriau nas gwelwyd mo'u tebyg o'r blaen yn ei hanes. Bydd angen sicrhau bod y nodweddion cadarnhaol a welir o ran arweinyddiaeth gadarn ac ethos tîm cryf yn parhau yn wyneb

[3] Adroddiadau'r Ombwdsmon ym mis Rhagfyr 2004 (2002/1009/PE/269), mis Mawrth 2010 (achos 200800024), mis Ionawr 2011 (achos 200901732)

yr heriau hyn. Bydd hefyd angen i'r Cyngor sicrhau bod gwelliannau diweddar o ran y trefniadau adrodd ar berfformiad yn parhau er mwyn sicrhau y gall Cynghorwyr a thrigolion ddeall yn llawn y dewisiadau sy'n wynebu'r Cyngor yng nghyd-destun y lefelau gwasanaeth presennol, perfformiad a'r adnoddau sydd ar gael.

## Mae diwylliant o barch ac ymddiriedaeth yn bodoli rhwng y rhan fwyaf o'r Cynghorwyr a swyddogion, sy'n arwain at gydberthnasau gwaith cynhyrchiol

**18.** Un ffactor pwysig yn y ffordd y mae pob sefydliad yn gweithredu yw ei ddiwylliant. I fod yn effeithiol, mae angen i sefydliad weithredu ei gynlluniau a'i systemau llywodraethu a rheoli drwy'r bobl y mae'n eu cyflogi ac yn ymgysylltu â hwy. Pobl sy'n rhoi egni i'r system a heb ymrwymo, perchenogi a grymuso, bydd sefydliadau yn ei chael yn anodd cyflawni'r hyn maent wedi'i gynllunio.

**19.** Canfuwyd bod diwylliant cadarnhaol o ymddiriedaeth a pharch i'r ddwy ochr yn y Cyngor, gyda chydberthnasau gwaith cynhyrchiol rhwng y rhan fwyaf o'r Cynghorwyr a swyddogion. Ar y cyfan mae Cynghorwyr yn ymddiried yn y swyddogion i wneud gwaith y Cyngor ac yn parchu eu gwybodaeth a'u proffesiynoldeb. Canfu ein cyfweliadau, ein grwpiau ffocws a'n harolwg fod swyddogion yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso i gyflawni eu rolau a'u bod yn cael eu hannog i wneud hynny gan ddiwylliant anffurfiol sy'n annog cyswllt wyneb yn wyneb.

**20.** Canfuwyd hefyd fod diwylliant 'drws agored' lle roedd Cynghorwyr a swyddogion yn rhyngweithio'n gyffyrddus â'i gilydd bob dydd mewn awyrgylch anffurfiol. Roedd y rhan fwyaf o'r Cynghorwyr a'r swyddogion y siaradwyd â hwy o'r farn bod hon yn ffordd adeiladol o weithredu a oedd yn golygu ei bod yn hawdd codi materion, cael amcan o'r farn gyffredinol, a thrafod atebion er mwyn sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud. Roedd mwyafrif llethol y Cynghorwyr o'r farn bod y swyddogion yn hawdd mynd atynt ac yn ymatebol ac roeddent yn teimlo pe bai angen gwybodaeth neu gyngor arnynt, bod swyddogion yn barod i'w rhoi iddynt ac yn gallu gwneud hynny.

**21.** Fodd bynnag, mae rhai swyddogion yn anghyffyrddus â'r dull hwn o weithredu, yn yr ystyr y gallai'r diwylliant drws agored eu rhoi mewn sefyllfa anodd pe bai gwrthdaro buddiannau â Chynghorwyr. Yn yr un modd, mae nifer fach o Gynghorwyr yn teimlo nad ydynt yn rhan o'r dull cynhwysol o weithredu ac er nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i beidio ag ymgysylltu a gofyn am wybodaeth, nid ydynt yn teimlo bod camau rhagweithiol yn cael eu cymryd i ymgysylltu â hwy a rhoi gwybodaeth iddynt. Byddem yn dweud bod agwedd y Cyngor at fod yn agored yn eithaf goddefol, a dylai geisio gwneud mwy i annog pobl i ymgysylltu a rhannu gwybodaeth.

**22.** O gofio'r sefydlogrwydd gwleidyddol hanesyddol, nid yw'n syndod i ni ganfod nad oes unrhyw gamddefnydd o wleidyddiaeth plaid ac mai ychydig iawn o ymddygiad gwrthwynebol sydd rhwng Cynghorwyr. Y nod yw cael gwleidyddiaeth yn seiliedig ar gonsensws, a chanfuwyd bod yr amgylchedd gwleidyddol sefydlog yn ei gwneud yn bosibl cynnal trafodaeth adeiladol heb fawr ddim ymddygiad amddiffynnol.

Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor ofalu nad yw Cynghorwyr yn teimlo'n rhy gyfforddus; ac annog diwylliant o herio a thrafod gweithredol ac adeiladol.

**23.** Mae ymddiriedaeth, bod yn agored a grymuso i'w gweld yn glir yn amgylchedd gweithio swyddogion hefyd. Caiff gwaith ei wneud wyneb yn wyneb i raddau helaeth a cheir awydd i leihau biwrocratiaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r staff y siaradwyd â hwy yn croesawu'r dull hwn o weithredu ac o'r farn ei fod yn ymrymusol. Fodd bynnag, cawsom wybod y byddai rhai aelodau o staff yn croesawu mwy o ffurfioldeb a fyddai'n eu helpu i gyflawni eu dyletswyddau mewn modd tryloyw ac atebol priodol.

**24.** Fel sail i'r diwylliant gweithio cadarnhaol hwn, mae'r Cyngor wedi datblygu 'Safon Rheolwyr Sir Benfro' sy'n nodi'r gwerthoedd a'r ymddygiad sy'n ddisgwyliedig ac yn cael eu hannog. Mae Rhaglen Datblygu Rheolwyr Sir Benfro ar waith hefyd sy'n rhoi llwybr datblygu i unigolyn gan gynnwys cymorth mentora, cynllunio datblygiad personol, prosiectau datblygu sefydliadol, digwyddiadau dysgu penodol, setiau dysgu gweithredol a rhaglenni datblygu arweinwyr. Credwn fod hon yn fenter gadarnhaol iawn sy'n dangos bod camau'n cael eu cymryd i feithrin diwylliant y sefydliad.

# Nid oes digon o eglurder na dealltwriaeth ynghylch rhai rolau a chyfrifoldebau, a cheir rhywfaint o ddiffyg tryloywder hefyd, sy'n golygu nad yw her effeithiol yn nodwedd gyson ar drefniadau llywodraethu

## Nid oes digon o eglurder na dealltwriaeth ynghylch rhai rolau a chyfrifoldebau

**25.** Mae rhai Cynghorwyr yn cael anhawster deall eu rolau a'u cyfrifoldeb corfforaethol. Er bod Cynghorwyr yn deall eu rôl fel cynrychiolwyr wardiau ac yn perfformio'r rôl honno â brwdfrydedd, ar y cyfan ymddengys nad oes ganddynt fawr ddim gwerthfawrogiad o sut y gallant ac y dylent gyfrannu at faterion ar draws y sir a'r gwaith o lywodraethu'r Cyngor. Er enghraifft yn ystod sesiwn Pwyllgor Craffu, wrth awgrymu y dylid rhoi'r gorau i raglen i ddiffodd goleuadau stryd, roedd Cynghorwyr yn ymateb i faterion a godwyd yn eu hardal leol ac wedi methu gweld y cysylltiad ag amcan strategol y Cyngor o arbed ynni. Mae rhai Cynghorwyr yn canolbwyntio gormod ar faterion gweithredol ac yn manteisio ar ddiwylliant drws agored swyddogion i gynnwys eu hunain mewn gwaith microreoli amhriodol.

**26.** Fodd bynnag, mae angen i Gynghorwyr weithio i gael sicrwydd bod eu polisïau'n cael eu rhoi ar waith yn ôl y bwriad. Mae gan Gynghorwyr anweithredol rôl i'w chwarae i ddwyn y Weithrediaeth i gyfrif drwy graffu ar benderfyniadau'r Cyngor yn drylwyr. Mewn llawer o achosion, nid yw Cynghorwyr yn ymwybodol o natur eu rôl na faint o rôl sydd ganddynt i geisio sicrwydd bod y Cyngor yn gwneud penderfyniadau priodol ar ran ei ddinasyddion. Mae llawer o'r Cynghorwyr a holwyd gennym heb weld gwaith y

gwasanaeth archwilio mewnol, er bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi cymeradwyo cylch gorchwyl ffurfiol ar ei gyfer. Yn ogystal, nid oedd ganddynt ymwybyddiaeth gyffredinol o rai adnoddau pwysig a fyddai o gymorth iddynt yn eu rôl, fel cofrestri risg a chofrestri penderfyniadau dirprwyedig. Nid yw'r Cyngor wedi nodi'n glir beth mae'n ei ddisgwyl gan ei Gynghorwyr gan nad oes disgrifiadau o rolau Cynghorwyr ac ychydig iawn o hyfforddiant a ddarperir sy'n benodol i'r rôl.

**27.** Gwelwyd bod Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi'n gywir ble y caiff penderfyniadau eu gwneud a'r pwerau dirprwyedig amrywiol sy'n bodoli, a bod Cynghorwyr yn y Cabinet ac uwch swyddogion yn deall eu rolau a'u cyfraniadau'n llawn. Fodd bynnag ceir diffyg dealltwriaeth yn gyffredinol o rolau'r Cabinet, y Pwyllgorau Craffu, y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a'r Tîm Rheoli Corfforaethol ymhlith y Cynghorwyr a'r aelodau staff hynny nad ydynt yn rhan ohonynt, ynghyd â diffyg dealltwriaeth o sut y maent yn cysylltu â'i gilydd i helpu i ddatblygu polisïau a gwneud penderfyniadau. Dywedodd rhai Cynghorwyr wrthym eu bod yn credu mai swyddogion sy'n llywio penderfyniadau a pholisïau. Credant hefyd nad yw argymhellion polisi gan swyddogion yn cael eu herio bron o gwbl a bod gorddibyniaeth ar gydberthnasau anffurfiol rhwng uwch reolwyr a'r grŵp Annibynnol sydd mewn grym.

**28.** Un canfyddiad arall ymhlith rhai Cynghorwyr a swyddogion yw mai'r Tîm Rheoli Corfforaethol yw'r prif gorff gwneud penderfyniadau a'i fod yn fforwm ar gyfer gwneud penderfyniadau strategol yn ogystal â rhai gweithredol. Mae rhai o'r farn nad oes trefniadau priodol ar waith i hysbysu Cynghorwyr o faterion o bwys strategol, fel y'u trafodir gan y Tîm Rheoli Corfforaethol.

**29.** Fodd bynnag, canfuwyd bod y Tîm Rheoli Corfforaethol yn cyflawni swyddogaeth briodol o ran rheoli busnes y Cyngor, yn debyg i uwch dimau rheoli mewn awdurdodau lleol ledled Cymru. Mae'n fforwm i drafod materion gweithredol, cadw trosolwg o risgiau allweddol, a datblygu gwaith trawsadrannol. Y Tîm Rheoli Corfforaethol yw'r fforwm priodol i uwch swyddogion drafod rhai materion fel y gellir gwneud gwaith paratoi cyn i Gynghorwyr eu trafod, neu i wneud penderfyniadau o dan y pwerau a ddirprwywyd iddynt.

**30.** Gellir priodoli'r diffyg dealltwriaeth ymhlith rhai o'r broses gwneud penderfyniadau, a'r canfyddiadau amrywiol ynghylch sut y caiff penderfyniadau eu gwneud, i nifer o ffactorau:

- anaml iawn mae rolau'r fforymau amrywiol sy'n helpu i ddatblygu polisïau a gwneud penderfyniadau wedi cael eu hegluro ac nid ydynt wedi cael eu nodi'n glir mewn ffordd ddealladwy;
- nid oes digon o ddogfennaeth ar gael y gellir ei defnyddio i olrhain hynt penderfyniad drwy ei gamau amrywiol;
- nid yw Cynghorwyr wedi cael gwybod bod cofrestri penderfyniadau dirprwyedig yn bodoli ac felly ni allant ddeall hyd a lled dirprwyaethau;
- tan yn ddiweddar (ers adroddiadau Estyn ac AGGCC yn ystod haf 2011) nid oedd y Tîm Rheoli Corfforaethol yn cadw nac yn dosbarthu cofnodion ffurfiol o gyfarfodydd na chamau gweithredu y cytunwyd arnynt.

**31.** Yn arbennig, mae'r canfyddiad o gyfrinachedd ynghylch gwaith y Tîm Rheoli Corfforaethol wedi cyfrannu at ymdeimlad o amheuaeth a drwgdybiaeth, lle mae rhai Cynghorwyr a swyddogion yn teimlo eu bod yn cael eu hatal rhag cael gafael ar wybodaeth a fyddai'n rhoi sicrwydd iddynt fod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn ffordd briodol a bod polisïau'r Cyngor yn cael eu gweithredu'n briodol. Canfuwyd nad yw'r rôl ddilys sydd gan y Tîm Rheoli Corfforaethol i'w chwarae wedi cael ei hegluro o fewn y Cyngor ac na cheir dealltwriaeth dda ohoni.

## Ceir rhywfaint o ddiffyg tryloywder gan na chaiff gwybodaeth ei rhannu fel mater o drefn bob amser

**32.** Mae'n hollbwysig bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n briodol er mwyn sicrhau bod eglurder a dealltwriaeth gyffredin ynghylch materion a risgiau allweddol a sut mae'r Cyngor yn bwriadu mynd i'r afael â hwy. Fodd bynnag, pan gaiff gwybodaeth ei rhannu â rhai Cynghorwyr a swyddogion ond nid eraill, gall hyn gael effaith i'r gwrthwyneb. Gall achosi dryswch, cyfyngu ar ddealltwriaeth, creu holltau ac arwain at amheuon o gynllwynio. Canfuwyd er bod diwylliant agored y Cyngor yn golygu bod gwybodaeth yn tueddu i fod ar gael yn hawdd, mae'n rhaid i Gynghorwyr ofyn amdani mewn llawer o achosion yn hytrach na'i bod yn cael ei rhannu. Mae llawer o Gynghorwyr wedi dweud wrthym nad ydynt yn siŵr pa fath o wybodaeth na pha lefel o wybodaeth y dylent fod yn ei chael. Byddai'n fuddiol i'r Cyngor nodi'r lefel a'r math o wybodaeth y gall Cynghorwyr ddisgwyl ei chael wrth gyflawni eu rolau a gwneud trefniadau i sicrhau ei bod yn cael ei rhannu.

**33.** Yn ogystal â rhannu gwybodaeth yn rheolaidd ac fel mater o drefn, rhaid i'r Cyngor sicrhau bod Cynghorwyr yn cael eu hysbysu mewn da bryd o unrhyw faterion sy'n peri pryder. Fodd bynnag, canfuwyd nifer o enghreifftiau, fel a ganlyn, lle na chafodd Cynghorwyr eu hysbysu o faterion difrifol cyn iddynt ddarllen amdanynt yn y wasg leol, neu enghreifftiau lle cafodd gwybodaeth anghyflawn ei chyflwyno neu lle na chafodd ei chyflwyno'n ddigon aml neu'n ddigon cynnar yn y broses ddemocrataidd:

- Ni chafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Plant a Theuluoedd gopi llawn o adroddiad arolygu AGGCC ar y Gwasanaethau Maethu a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2010, dim ond crynodeb o dri maes yr oedd angen rhoi rhywfaint o sylw iddynt.
- Ni chafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Plant a Theuluoedd wybod am adroddiad Spicer 2010 ar adolygiad achos difrifol, nac adroddiad Ryngasiantaethol ar Ddiogelu 2011[4].
- Cyhoeddodd yr Ombwdsmon adroddiad[5] ym mis Mawrth 2010 ond nis cyflwynwyd i Gynghorwyr tan fis Mai 2010.

[4] http://wales.gov.uk/docs/cssiw/report/111122pembcy.pdf

[5] Adroddiad yr Ombwdson – mis Mawrth 2010 (achos 200800024)

- Cyflwynwyd adroddiad blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ym mis Tachwedd 2011 ar ôl iddo gael ei gyflwyno i AGGCC, felly ni chafodd Cynghorwyr gyfle i herio'r cynnwys a chraffu arno.
- Nid oedd rhai Cynghorwyr yn ymwybodol bod arolygiad Estyn na’r ymchwiliad ar y cyd gan Estyn ac AGGCC wedi cael eu cynnal.
- Ni chaiff adroddiadau ariannol ac adroddiadau ar berfformiad eu cyflwyno i Gynghorwyr yn ddigon mynych er mwyn eu galluogi i’w herio’n rhesymol (e.e. dim ond yn ddiweddar y bu trafodaeth o fewn y pwyllgor craffu ynghylch gorwario sylweddol ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol).

## Nid yw her effeithiol yn nodwedd gyson ar drefniadau llywodraethu

**34.** Mae'r enghreifftiau uchod o ddiffygion o ran rhannu gwybodaeth hefyd yn dangos nad oes gwerthfawrogiad digonol o brosesau herio a chraffu. Rydym o'r farn mai'r rheswm am hyn yn rhannol yw bod hanes o brosesau craffu gwan, ac ychydig iawn o her gan Gynghorwyr, sydd wedi datblygu dros amser i'r fath raddau lle na chaiff y broses o graffu ar faterion neu wybodaeth ei gwerthfawrogi’n llawn.

**35.** Anaml y caiff Cynghorwyr y Cabinet a swyddogion mewn pwyllgorau craffu eu herio a chanlyniad hyn yw bod y trefniadau ar gyfer dwyn y Weithrediaeth i gyfrif yn gymharol wan. Mae dealltwriaeth Cynghorwyr o sut i graffu'n effeithiol yn amrywio ac mae rhai Cynghorwyr yn fwy medrus nag eraill yn hyn o beth. Dywedodd cyfarwyddwyr wrthym y byddent yn croesawu her gadarnach, fodd bynnag, mae rhai aelodau craffu o'r farn mai ymgais i 'gorddi'r dyfroedd' yw herio. Ni fanteisir ar gyfleoedd i herio Cynghorwyr y Cabinet ac uwch swyddogion yn ddigon aml, ac ni chaiff rhai cwestiynau amlwg eu gofyn. Er enghraifft, wrth arsylwi sesiynau craffu, ni lwyddodd Cynghorwyr i ganfod problemau o ran tangyflawni na gwneud ymholiadau ynghylch pam nad oedd targedau'n cael eu cyflawni. Mae Cynghorwyr gwrthbleidiol o'r farn bod trefniadau trosolwg, sy'n helpu i ddatblygu ac adolygu polisïau a strategaethau, yn gweithio'n dda ond bod trefniadau craffu, i ddwyn y Weithrediaeth i gyfrif am ei phenderfyniadau, yn aneffeithiol. Ychydig iawn o dystiolaeth a welwyd i ddangos bod pwyllgorau craffu yn dwyn y Weithrediaeth i gyfrif.

**36.** Yn ogystal â'r ffaith nad oes ganddynt ddealltwriaeth glir o'u rôl graffu, nid oes gan rai Cynghorwyr ddealltwriaeth lawn o'r prosesau y gallant eu defnyddio i graffu ar y Weithrediaeth yn effeithiol. Dibynnir gormod ar y defnydd o 'hysbysiadau cynigion' i herio penderfyniadau neu bolisïau. Mae rhai Cynghorwyr wedi camddeall 'hysbysiadau cynigion' fel adnoddau y dylent eu defnyddio i arfer eu rôl graffu yng nghyfarfodydd llawn y Cyngor. Effaith hyn yw bod statws pwyllgorau craffu fel y prif fforwm ar gyfer gwaith herio a chraffu ystyrlon yn cael ei danseilio.

**37.** Fodd bynnag, gwelwyd enghraifft o waith craffu effeithiol yn ystod un o sesiynau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Plant a Theuluoedd. Dangosodd y Cynghorwyr barodrwydd i herio ac ystyried materion a gofynnwyd rhai cwestiynau perthnasol ac eithaf heriol ynghylch data ysgolion. Roedd lefel dda o her i'r Cyfarwyddwr, ond ni chyfeiriodd y Cynghorwyr unrhyw gwestiynau at Gynghorydd y Cabinet ac felly collwyd cyfle i herio a dwyn y Weithrediaeth i gyfrif. Canmolodd y Cadeirydd a’r Is-gadeirydd

lefel y wybodaeth a ddarparwyd iddynt yn y sesiwn hon, ond dywedasant hefyd mai dyma'r tro cyntaf i'r Pwyllgor gael data cynhwysfawr a chymhariaethau o'r fath ar berfformiad ysgolion, sy'n hollbwysig, yn eu barn hwy, i'w galluogi i gyflawni eu rôl craffu yn briodol. Mae'r diffyg gwybodaeth hwn am berfformiad wedi bod yn wendid sylweddol yn y gorffennol ac mae'n debyg ei fod wedi cyfrannu at y prosesau craffu gwan a ddatblygwyd, fel y nodwyd yn flaenorol.

**38.** Bydd rhoi gwybodaeth berthnasol ac amserol i bwyllgorau craffu yn eu galluogi i gyflawni eu rôl yn llawn ac yn effeithiol. Fodd bynnag, rhaid i'r wybodaeth a ddarperir fod mor gynhwysfawr â phosibl a dylai fod yn hawdd ei deall. Gall gwybodaeth anghyflawn neu wybodaeth heb unrhyw gyd-destun fod yn ddiystyr neu, yn waeth byth, yn anghyson. Canfuwyd nad oedd yr holl wybodaeth a gyflwynwyd am fesurau perfformiad cenedlaethol wedi'i gosod yng nghyd-destun blaenoriaethau neu amcanion gwella'r Cyngor ac nad oedd unrhyw eglurhad o'r hyn roedd y wybodaeth yn ei olygu na'r effaith ar wasanaethau ac, yn y pen draw, ar y cyhoedd. Ni wnaed unrhyw ymholiadau ynghylch pam bod rhai dangosyddion yn tangyflawni na'r rhesymau dros berfformiad da.

**39.** Dywedodd rhai aelodau craffu wrthym fod y wybodaeth a ddarperir wedi gwella ers adroddiadau beirniadol yr arolygiaethau yn ystod haf 2011. Yn ogystal, bellach gall Cynghorwyr gael mynediad i gronfa ddata perfformiad, Ffynnon, lle caiff gwybodaeth amser real am berfformiad ei chofnodi.

**40.** Yn ogystal â chael gwybodaeth berthnasol ac amserol, mae'n rhaid i waith craffu ganolbwyntio ar y pethau cywir er mwyn bod yn effeithiol. Un o'r ffyrdd y gellir gwneud hyn yw drwy sicrhau bod rhaglenni gwaith craffu yn cyd-fynd â meysydd strategol a meysydd busnes allweddol y Cyngor. Dylai'r rhaglenni ganolbwyntio ar waith a fydd yn gwneud gwahaniaeth i'r Cyngor ac i'r cyhoedd. Canfuwyd y caiff rhaglenni gwaith eu llywio'n bennaf gan awgrymiadau'r Cynghorwyr eu hunain a chyfraniadau uwch swyddogion, gyda rhywfaint o hyblygrwydd i ymateb i faterion amserol neu annisgwyl. Fodd bynnag, ni cheir ffordd strwythuredig o ddatblygu rhaglenni gwaith a allai gynnwys, er enghraifft, gysylltiadau â chyfeiriad strategol neu flaenoriaethau'r Cyngor, neu feysydd lle tangyflawnir.

**41.** Er bod gan y Weithrediaeth flaenraglen waith a'i bod ar gael mewn canolfannau gwasanaethau cwsmeriaid, nid oedd cadeiryddion y pwyllgorau Craffu yn ymwybodol ohoni. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn manteisio ar y cyfle i neilltuo lle yn eu rhaglenni gwaith i faterion y gallai fod yn briodol iddynt graffu arnynt cyn y gwneir penderfyniadau yn eu cylch (gan roi barn neu gyngor cyn i'r Weithrediaeth wneud penderfyniad). Byddai ymwybyddiaeth o raglen waith y Weithrediaeth o fudd i alluogi'r swyddogaeth graffu i benderfynu ar y ffordd orau o ddwyn y Weithrediaeth i gyfrif a nodi materion priodol ar gyfer ei rhaglen waith ei hun. Rydym o'r farn y dylai'r Cyngor wneud mwy i dynnu sylw at raglenni ei weithrediaeth a'i bwyllgorau craffu, a sicrhau bod y rhaglenni hynny ar gael.

**42.** Mae gan y Cyngor bedwar pwyllgor craffu: Plant a Theuluoedd; Pobl Hŷn, Iechyd a Lles; yr Amgylchedd; a'r Economi. Mae'r pwyllgorau'n ystyried materion yn ymwneud â darparu gwasanaethau a materion trawsbynciol o ran darparu a chyflenwi. Fodd bynnag, ychydig iawn o faterion corfforaethol y mae Cynghorwyr yn craffu arnynt yn ffurfiol, megis cyllidebau, risg ac adnoddau dynol. Mae'n bwysig bod Cynghorwyr yn dangos eu bod yn cymryd rhan yn y gwaith o lywodraethu'r Cyngor drwy roi trosolwg o drefniadau corfforaethol, eu hadolygu a'u monitro a darparu her er mwyn dwyn y Weithrediaeth i gyfrif. Canfuwyd bod bwlch yn hyn o beth yn y trefniadau presennol.

**43.** Mae'r Cyngor yn rhoi cymorth da i hyfforddi a datblygu Cynghorwyr drwy Strategaeth Dysgu a Datblygu Aelodau Etholedig, Grŵp Dysgu a Datblygu Aelodau Etholedig i lywio'r strategaeth honno, a Hyrwyddwr Dysgu a Datblygu Aelodau Etholedig (yr Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Chynllunio). Drwy'r strategaeth hon, mae'r Cyngor wedi datblygu dadansoddiad da iawn o anghenion hyfforddi'r Cynghorwyr, wedi paratoi amserlen hyfforddiant a seminarau ychwanegol, ac wedi sefydlu parth e-ddysgu i wella mynediad i gyfleoedd dysgu. Fodd bynnag, ni cheir disgrifiadau penodol o rolau Cynghorwyr na phroffiliau cymhwysedd y gellir targedu anghenion hyfforddiant yn eu herbyn.

**44.** Mae'r amserlen hyfforddiant ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mai 2008 a mis Rhagfyr 2011 yn dangos mai dim ond un digwyddiad hyfforddi penodol ym maes craffu a gynhaliwyd, a hynny ym mis Rhagfyr 2009 o dan y teitl 'Ymwybyddiaeth o Brosesau a Chyfleoedd Trosolwg a Chraffu'. Er bod y rhaglen hyfforddi yn cynnwys rhywfaint o hyfforddiant sgiliau ac amrywiaeth eang o ddigwyddiadau dysgu, nid oes digon o hyfforddiant penodol ym maes craffu a fyddai'n helpu'r Cynghorwyr i ddatblygu eu sgiliau craffu. Nododd y Cynghorwyr eu hunain bod y ffaith nad oes hyfforddiant penodol ar gael ym maes craffu yn un o'r rhwystrau i wneud gwaith craffu effeithiol.

**45.** Ar hyn o bryd caiff y swyddogaeth graffu ei chefnogi drwy swyddogion gwasanaethau pwyllgorau, y tîm polisi a pherfformiad, a Phenaethiaid Gwasanaethau a Chyfarwyddwyr. Mae Cynghorwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth a'r gefnogaeth a ddarperir gan y swyddogion hyn ond ar hyn o bryd, ni cheir unrhyw gefnogaeth benodedig ym maes craffu. Ceir sawl model gwahanol i gefnogi gwaith craffu, ac mae angen i'r Cyngor ystyried y ffordd orau o gefnogi gwaith craffu, o gofio'r hyn fydd yn ddisgwyliedig o ran craffu yn y dyfodol. Bydd gweithredu Mesur Llywodraeth Leol 2010 yn gyfle i'r Cyngor egluro rôl gwaith craffu, gwerthuso effeithiolrwydd trefniadau presennol, pennu faint o gefnogaeth sydd ei hangen, a pharatoi Cynghorwyr i gyflawni'r rôl yn effeithiol.

**46.** Canfuwyd rhai enghreifftiau o bwyllgorau trosolwg a chraffu yn gwneud gwaith da, ond dengys dadansoddiad o sampl o adroddiadau ar draws yr holl bwyllgorau nad yw'r effaith y mae'r gwaith hwn yn ei chael yn glir. Er enghraifft, nid oedd rhai adroddiadau ar ymchwiliadau craffu yn cynnwys unrhyw argymhellion i'r Weithrediaeth, ac nid oedd y rheswm dros wneud y gwaith yn glir. Roedd adroddiadau eraill yn llawn gwybodaeth ac yn cyflawni'r rôl drosolwg ond unwaith eto, nid oedd eu heffaith na'u canlyniad yn glir. O gofio'r adnoddau a fuddsoddir yn y gwaith hwn, mae angen i'r Cyngor ganfod pa werth ychwanegol sy'n cael ei greu os nad oes canlyniad amlwg.

**47.** Fel grŵp, mae Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion pwyllgorau craffu yn cyfarfod unwaith y flwyddyn i drafod y rhaglen waith. Ar wahân i'r cyfarfod hwn, fel corff cyfun, nid ydynt yn gallu darparu unrhyw arweinyddiaeth na chyfeiriad ar gyfer gwaith craffu. Mae gan y grŵp hwn, gyda chylch gorchwyl priodol, y potensial i ychwanegu gwerth at y swyddogaeth graffu a helpu i'w datblygu. Dylai'r Cyngor ystyried sut y gellir defnyddio'r grŵp hwn yn fwy effeithiol.

**48.** Yn ogystal â'r gwelliannau o ran craffu a ddisgrifir uchod, canfuwyd hefyd bod rhai rhwystrau cyfansoddiadol y mae angen eu goresgyn er mwyn sicrhau her effeithiol. Mewn gweithdy a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2009, er i Gynghorwyr nodi rhai pwyntiau cadarnhaol ynghylch trosolwg a chraffu, gwnaethant hefyd godi rhai materion a oedd yn rhwystro gwaith craffu effeithiol yn eu barn hwy. Ymhlith y materion hyn roedd y weithdrefn y gall pwyllgorau craffu ei defnyddio i drefnu bod penderfyniad gweithredol yn cael ei gyflwyno'n ffurfiol iddo ei adolygu (a elwir yn galw i mewn), amlder cyfarfodydd pwyllgorau, y cydgysylltiad rhwng agendâu, llif gwybodaeth, a'r gydberthynas rhwng y Weithrediaeth a'r pwyllgorau craffu.

**49.** Yn ystod y gweithdy a gynhaliwyd gennym gydag aelodau craffu yn ystod yr arolygiad hwn, nodwyd nifer o agweddau cadarnhaol, ond unwaith eto tynnwyd sylw at faterion tebyg sy'n llesteirio prosesau herio a chraffu effeithiol. Yn eu plith mae: mynediad at wybodaeth; cyfarfodydd craffu aneffeithiol; dim digon o gyfarfodydd; rhywfaint o ddiffyg eglurder o ran rolau; a'r ffaith nad yw camau herio yn cael eu croesawu bob amser.

**50.** Mae'r Cyngor wrthi'n adolygu'r Cyfansoddiad ac mae wedi gwahodd Cynghorwyr i gyflwyno materion sy'n peri pryder iddynt. Ymhlith y materion hyn roedd y canlynol:

- rhoi'r hawl i Gynghorwyr siarad ynghylch eu hysbysiadau cynigion eu hunain yng nghyfarfodydd y Cabinet yn hytrach na thrwy Aelod o'r Cabinet;
- cyhoeddi cofnodion pwyllgorau yn gyflymach;
- tryloywder wrth ddewis Cadeiryddion pwyllgorau trosolwg a chraffu;
- trefnu bod cofnodion cyfarfodydd y Tîm Rheoli Corfforaethol ar gael i'r Cynghorwyr;
- newidiadau i'r weithdrefn galw i mewn;
- yr amser a ganiateir ar gyfer cwestiynau yn y Cyngor;
- cynyddu nifer y cyfarfodydd Cyngor a gynhelir.

**51.** Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen gwneud rhai newidiadau er mwyn bod yn fwy agored a thryloyw ac, yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 21 Tachwedd 2011, cytunwyd ar rai newidiadau cyfansoddiadol. Mae newidiadau eraill wedi'u gohirio hyd nes y gwneir gwaith ymchwil pellach neu er mwyn aros am ganllawiau Llywodraeth Cymru ar weithredu Mesur Llywodraeth Leol 2011. Er ei fod wedi gwneud cynnydd, mae angen i'r Cyngor sicrhau bod yr adolygiad o'r Cyfansoddiad yn achub ar y cyfle i oresgyn unrhyw rwystrau eraill sy'n llesteirio dulliau gweithredu agored a thryloyw.

## Mewn rhai achosion, mae gorddibyniaeth ar ddulliau rheoli anffurfiol wedi gwanhau atebolrwydd ac wedi arwain at rywfaint o laesu dwylo ac amlygiad i risg. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi dechrau mynd i'r afael â'r problemau hyn bellach

**52.** Canfuwyd bod gwendidau o ran trefniadau dwyn i gyfrif yn ymestyn y tu hwnt i'r swyddogaeth graffu a'u bod yn deillio o ddulliau rheoli anffurfiol. Er i ni ganfod bod y diwylliant anffurfiol ac ymddiriedus yn fuddiol mewn sawl ffordd, gwelwyd hefyd duedd i ddibynnu'n ormodol ar drafodaethau, cyfarwyddiadau a sicrwydd llafar.

**53.** Enghraifft benodol oedd y methiant blaenorol i ddosbarthu cofnod ffurfiol o gyfarfodydd y Tîm Rheoli Corfforaethol. Cyn i gofnodion ffurfiol gael eu cyflwyno ar ddiwedd haf 2011, cawsom wybod gan aelodau'r tîm hwnnw y byddai'r sawl a oedd yn bresennol yn gadael cyfarfodydd y tîm o bryd i'w gilydd, â barn ychydig yn wahanol ar yr hyn a drafodwyd ac y cytunwyd arno. Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn fforwm hanfodol i reoli'r Cyngor yn effeithiol, ac mae'n bwysig bod pwyntiau gweithredu clir y cytunwyd arnynt yn cael eu dogfennu fel y gellir dwyn y rhai sy'n gyfrifol am weithredu ar y materion hynny i gyfrif. Rydym yn falch bod y Cyngor wedi dechrau cadw cofnodion ffurfiol o gyfarfodydd y Tîm Rheoli Corfforaethol, a bod y cofnodion hyn bellach yn cael eu dosbarthu i Benaethiaid Gwasanaethau.

**54.** Ceir anffurfioldeb rhwng Aelodau'r Cabinet a Chyfarwyddwyr hefyd. Nid oes gan Aelodau'r Cabinet yr hawl i weld cofnodion o'r hyn a drafodir yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli Corfforaethol, ond mae Cyfarwyddwyr yn rhoi adborth anffurfiol. Mae trafodaethau anffurfiol yn mynd rhagddynt hefyd i weithredu ar faterion ac er bod y lefel hon o ymgysylltu yn gadarnhaol, mae'r ffaith na chaiff nodiadau na chamau gweithredu y cytunir arnynt mewn cyfarfodydd o'r fath eu dogfennu'n aml yn tanseilio gallu'r Cyngor i ddwyn y Weithrediaeth i gyfrif, a gall arwain at ddiffyg dealltwriaeth gyffredin.

**55.** Mae diffyg trefniadau cadw cofnodion priodol yn wendid sy'n codi'n aml yng ngwaith y Cyngor. Canfuwyd bod cofnodion o benderfyniadau yn anghyson ac yn anghyflawn yn ystod adolygiad barnwrol diweddar o'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol. Er bod Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol wedi cyhoeddi cyngor ar gofnodi penderfyniadau dirprwyedig yn gywir yn ddiweddar, mae'r lefel a'r math o wybodaeth a geir mewn cofrestri penderfyniadau dirprwyedig yn anghyson. Mae angen i'r Cyngor gryfhau'r trefniadau hyn er mwyn sicrhau ei fod yn amddiffyn ei hun rhag unrhyw heriau pellach ynglŷn â phriodoldeb ei benderfyniadau.

**56.** Mae gwendidau parhaus wedi bod yn nodwedd ar drefniadau cadw cofnodion adnoddau dynol mewn perthynas â chyfrifoldebau amddiffyn plant y Cyngor hefyd. Yn ystod ein cyfweliadau â swyddogion canfuwyd nad oedd cydnabyddiaeth ddigonol o'r angen i ffurfioli a chofnodi lle bo angen. Mae cofnodi gwybodaeth briodol yn gywir yn gam diogelu pwysig o ran cael sicrwydd bod gwasanaethau'n cael eu rheoli'n briodol a'u darparu'n effeithiol.

**57.** Canfuwyd hefyd bod y systemau sydd ar waith i Gynghorwyr Anweithredol godi materion sy'n peri pryder yn aneglur. Caiff materion eu hystyried mewn modd anffurfiol ac mae'n ymddangos bod hyn yn lleihau awydd Cynghorwyr i herio mewn fforwm agored ac yn lleihau'r angen i alw penderfyniadau i mewn. Ceir trafodaethau anffurfiol rhwng rhai Cynghorwyr a'r Arweinydd i geisio datrys problemau, negodi a goresgyn unrhyw wrthwynebiad. Unwaith eto, er bod hwn yn arfer pragmatig, mae hefyd yn ddibynnol ar gydberthnasau anffurfiol. Byddai'n fuddiol i'r Cyngor egluro'r systemau sydd ar gael i Gynghorwyr godi pryderon o fewn y grŵp rheoli a'r tu allan iddo.

**58.** Mae trefniadau rheoli risg y Cyngor yn adnodd pwysig er mwyn cadw trosolwg o fethiannau o ran gwasanaethau a methiannau corfforaethol a sicrhau nad ydynt yn digwydd yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, canfuwyd gennym nad yw Cynghorwyr yn cadw trosolwg o risg bron o gwbl ar hyn o bryd. Nid oedd mwyafrif llethol y Cynghorwyr y siaradwyd â hwy yn ymwybodol o gofrestri risg, ac nid oeddent yn ymwybodol ychwaith o'u cyfrifoldeb i gadw trosolwg drwy fonitro risgiau. Nid yw'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol na'r pwyllgorau trosolwg a chraffu yn adolygu cofrestri risg nac yn monitro'r camau a gymerir i liniaru risgiau fel mater o drefn. Dywedwyd wrthym fod uwch swyddogion yn adolygu risgiau'n rheolaidd a gwelwyd tystiolaeth i ddangos bod y cofrestri risg yn cael eu diweddaru. Fodd bynnag, ni chaiff adroddiadau monitro rheolaidd eu cyflwyno i'r Cynghorwyr ac ymwybyddiaeth gyfyngedig iawn sydd ganddynt o'r risgiau sy'n wynebu'r awdurdod, y camau gweithredu i'w lliniaru a'u heffaith ar brosesau gwneud penderfyniadau a dyrannu adnoddau. Mae'r diffyg cyfranogiad hwn mewn prosesau monitro risg yn wendid sylweddol sy'n cael effaith andwyol iawn ar allu Cynghorwyr i lywodraethu'n effeithiol a dwyn eraill i gyfrif.

**59.** Bu’r Cyngor yn ymwybodol o gyfyngiadau ei drefniadau rheoli risg, a chyflawnodd gryn dipyn o waith da o ran datblygu cofrestri electronig ar gyfer risgiau corfforaethol a risgiau o ran gwasanaethau, y mae’r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am eu diweddaru, ac am gyfiawnhau camau gweithredu i liniaru’r risgiau. Mae hefyd yn diwygio ei strategaeth rheoli risg a fydd yn egluro rôl y Pwyllgor Archwilio newydd.

**60.** Fel yn achos rheoli risg, nid yw'r ffaith bod trefniadau ar gael yn gwarantu eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol nac ychwaith fod y bobl briodol yn cymryd rhan yn y broses. Canfu Adolygiad Archwilio Mewnol y Cyngor ar gyfer 2010-11 fod gan yr Awdurdod reolaethau digonol ar waith ar y cyfan; fodd bynnag, canfu hefyd y gall gwybodaeth amdanynt, y ffordd y cânt eu cymhwyso a chydymffurfiaeth â hwy fod yn anghyson o hyd.

**61.** Canfu ein gwaith hefyd er bod rhwystrau a gwrthbwysau penodol ar waith, gan gynnwys cofrestri risg, cynlluniau busnes, adroddiadau ar berfformiad a systemau arfarnu, ychydig iawn o brofion a gynhelir i sicrhau eu bod yn effeithiol neu eu bod yn cyrraedd y safon ofynnol. Mae angen cael mwy o sicrwydd bod y systemau rheoli yn gweithio a'u bod yn gallu bod yn effeithiol. Er bod y cam i ddatblygu Tystysgrifau Sicrwydd Blynyddol ar gyfer Cyfarwyddiaethau yn un cadarnhaol iawn, caiff y rhain eu cwblhau fel ymarfer hunanasesu bwrdd gwaith gan Gyfarwyddwyr i raddau helaeth. Ychydig iawn o brofion a gynhelir ar y trefniadau mewn gwirionedd ac ni cheir unrhyw her gan gymheiriaid. Gallai'r Cyngor achub ar y cyfle i fireinio a datblygu'r rhain ymhellach.

62. Ar hyn o bryd nid yw rolau'r adran Archwilio Mewnol na'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn canolbwyntio ar brofi trefniadau rheoli a llywodraethu. Teimlwn fod cyfle i'r Pwyllgor Archwilio newydd, gyda chymorth yr adran Archwilio Mewnol, sicrhau bod trefniadau'n cael eu profi'n ddigonol er mwyn rhoi sicrwydd i Gynghorwyr a chyfrannu at yr adolygiad o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

63. Mae arfarnu perfformiad pobl yn ogystal â pherfformiad gwasanaethau a systemau yn ffordd bwysig arall o sicrhau effeithiolrwydd. Mae system arfarnu perfformiad ar waith sy'n adolygu perfformiad ddwywaith y flwyddyn. Pennir targedau ar gyfer pobl a dengys sampl o arfarniadau bod y targedau hyn yn glir ac y gellir eu gwerthuso yn ôl pa un a ydynt wedi cael eu cyflawni ai peidio. Fodd bynnag, gwelwyd rhywfaint o dystiolaeth i ddangos na chaiff perfformiad ei arfarnu'n gyson ymhlith yr holl staff, ac y gall y broses fod yn un llai manwl mewn rhai achosion ac na roddir mwy nag esboniad arwynebol yn y dogfennau.

64. Gwelwyd enghreifftiau hefyd lle nad oedd uwch reolwyr wedi gwneud yn siŵr bod cyfarwyddiadau wedi cael eu dilyn yn unol â'r safon ddymunol, a lle roeddent wedi rhagdybio bod eu hatebolrwydd wedi dod i ben ar ôl iddynt roi cyfarwyddyd. Rhaid i'r Cyngor sicrhau nad digwyddiadau untro sy'n digwydd ddwywaith y flwyddyn yw arfarniadau perfformiad, ond eu bod yn adnoddau rheoli parhaus a bod gwaith gwirio syml yn ddilys ac yn angenrheidiol er mwyn cael sicrwydd bod gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u darparu'n briodol.

65. Nid oes system arfarnu ar waith ar gyfer Aelodau'r Cabinet ac, fel y nodwyd eisoes, nid oes disgrifiadau rôl a fyddai'n golygu y gellir eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad. Ni chaiff cofnodion presenoldeb eu cadw na'u monitro.

66. Mae'r orddibyniaeth ar drefniadau rheoli anffurfiol, a diffyg gwiriadau digonol, yn gwneud i ni gasglu bod rhywfaint o laesu dwylo bod y mesurau diogelu presennol o ran rheoli yn ddigonol. Mae'r methiant i roi blaenoriaeth i waith diogelu yn un o ganlyniadau llaesu dwylo, er bod y Cyngor wedi mynd i'r afael â'r methiant hwnnw yn frwd yn ddiweddar. Serch hynny credwn fod meysydd allweddol eraill, megis y gofynion statudol newydd mewn perthynas â chydraddoldebau ac amrywiaeth, yn cael eu hesgeuluso ar lefel strategol hefyd.

67. Er bod Cynghorwyr yn helpu i bennu cyfeiriad polisi cyffredinol, ar adegau ceir llai o ymgysylltu, ac felly llai o eglurder, ynghylch y strategaethau ar gyfer gweithredu polisi, a pha un a yw polisi'n cael ei weithredu fel y bwriadwyd. Canfuwyd bod Cynghorwyr yn cael gwybodaeth am gynlluniau a strategaethau, ond ceir llai o dystiolaeth i ddangos bod Cynghorwyr yn cael eu cynnwys yn weithredol wrth benderfynu ar gynlluniau cyflenwi, a'u bod yn cael trosolwg priodol y tu hwnt i drafodaeth anffurfiol.

68. Yn dilyn cyfnod anodd ar ôl i adroddiadau Estyn ac AGGCC gael eu cyhoeddi ym mis Awst 2011, mae'r Cyngor wedi derbyn bod angen gwneud gwelliannau i'w drefniadau i sicrhau ei fod yn cadw trosolwg digonol o'i wasanaethau a'i swyddogaethau. Mae'r Cyngor wedi rhoi cynlluniau gweithredu ar waith i ymateb i'r problemau addysg y tynnodd Estyn sylw atynt a'r problemau o ran amddiffyn a diogelu a ddatgelwyd gan yr ymchwiliad ar y cyd. Mae’r Bwrdd Atebolrwydd a Gwelliant o ran Diogelu wedi sefydlu

ffrwd waith sy’n ymdrin â ‘Democratiaeth ac Atebolrwydd’ sy’n gwneud cynnydd o ran nifer o faterion, fel a ganlyn:

- penodwyd Cynghorwr Arweiniol ar gyfer diogelu;
- sefydlwyd Panel Diogelu o Brif Swyddogion sy’n cyfarfod yn fisol;
- atgyfnerthwyd y prosesau asesu risg er mwyn dogfennu o ran diogelu risgiau yn well;
- diweddarwyd y polisi o ran chwythu’r chwiban;
- mae trefniadau’n cael ei rhoi ar waith ar gyfer monitro gwasanaethau a gomisiynir yn allanol.

**69.** At hynny, caiff nodiadau ffurfiol eu cymryd bellach yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli Corfforaethol a'u dosbarthu i'r rhai sy'n mynychu a Phenaethiaid Gwasanaethau; roedd hon yn feirniadaeth benodol yn yr ymchwiliad a gynhaliwyd ar y cyd gan y ddwy arolygiaeth.

**70.** Yn ogystal â'r camau a gymerir gan y Bwrdd Atebolrwydd a Gwelliant o ran Diogelu, mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran paratoi i gyflwyno Pwyllgor Archwilio, a fydd yn cynnwys trefniadau iddo gael adroddiadau manwl ar y gofrestr risg a materion yn ymwneud ag archwiliadau allanol, a’r adolygiad o’r cyfansoddiad y cyfeiriwyd ato yn gynharach. Rydym hefyd ar ddeall bod y Cyngor yn gwneud cynnydd o ran nifer o fentrau a fydd yn dechrau mynd i’r afael â rhai o’r diffygion a nodwyd yn yr adroddiad hwn, fel a ganlyn:

- bydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn ystyried protocol drafft ar gyfer rhannu gwybodaeth yn ei gyfarfod nesaf;
- sicrhau bod gan Gynghorwyr fynediad ar-lein i’r system rheoli perfformiad corfforaethol (Ffynnon);
- cynnal adolygiad o’r cymorth ar gyfer craffu;
- adolygu effeithiolrwydd rhaglenni sefydlu a hyfforddi Cynghorwyr.

# Atodiad 1

## Methodoleg

Mae'r Atodiad hwn yn nodi cwmpas ein Harolygiad Arbennig a'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym yn ystod ein gwaith.

Canolbwyntiodd ein gwaith ar y prif faterion canlynol:

- Pa un a yw Cynghorwyr a swyddogion yn cydweithio'n effeithiol i wneud penderfyniadau cadarn?
- Pa un a yw Cynghorwyr yn cael cefnogaeth effeithiol i gyflawni eu rôl?
- Pa un a yw Cynghorwyr a swyddogion yn cyfrannu'n effeithiol i helpu'r Cyngor i wneud penderfyniadau hyddysg a thryloyw?

Wrth gynnal yr Arolygiad Arbennig cynhaliwyd gweithgareddau amrywiol gan gynnwys rhai bwrdd gwaith a gwaith maes ar safle'r Cyngor.

### Adolygiad o ddogfennau

Cynhaliwyd adolygiad o ddogfennau sy'n berthnasol i lywodraethu a rheoli corfforaethol. Roedd hyn yn cynnwys cynlluniau a strategaethau, agendâu a chofnodion cyfarfodydd, adolygiadau ac adroddiadau mewnol, dogfennau canllaw a chyfathrebiadau mewnol, gohebiaeth, ac adroddiadau allanol. Ystyriwyd gwaith ac adroddiadau blaenorol Swyddfa Archwilio Cymru ynghyd ag adroddiadau gan AGGCC ac Estyn.

### Cyfarfodydd a chyfweliadau

Yn ystod ein gwaith maes cynhaliwyd cyfweliadau rhannol strwythuredig gyda chroestoriad o'r canlynol:

- Cynghorwyr (Cabinet, Craffu ac Anweithredol);
- Aelodau o'r Tîm Rheoli Corfforaethol;
- Penaethiaid Gwasanaethau;
- Rheolwyr ac arweinwyr timau;
- Cynrychiolwyr Undebau Llafur.

Yn ogystal â chyfweliadau a drefnwyd ymlaen llaw, cafodd pob Cynghorydd gyfle i gyfarfod ag un o aelodau'r tîm arolygu i drafod unrhyw faterion yr oeddent am eu dwyn i'n sylw.

## Grwpiau ffocws

Cynhaliwyd grwpiau ffocws gan ddefnyddio dull o'r enw 'Systemau Grŵp' sy'n galluogi cyfranogwyr i roi mewnbwn dienw mewn modd rhyngweithiol ar gyfres rannol strwythuredig o gwestiynau. Cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda'r canlynol:

- Penaethiaid Gwasanaethau;
- Rheolwyr;
- Arweinwyr Timau (neu unigolion cyfatebol).

Cynhaliwyd grŵp ffocws hefyd gyda chroestoriad o aelodau craffu gan ddefnyddio dulliau mwy traddodiadol ar siartiau troi.

## Arolwg

Er mwyn cael cynifer o safbwyntiau â phosibl gan y rhai a oedd am gyfrannu, trefnwyd arolwg ar-lein ac anfonwyd dolen mewn negeseuon e-bost at Gynghorwyr a swyddogion. Darparwyd cyfeiriad rhadbost hefyd ar gyfer y rheini a oedd yn anfodlon llenwi'r arolwg ar-lein neu'n methu gwneud hynny. Nid oedd rhaid i ymatebwyr roi eu henwau os nad oeddent yn dymuno.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk